**Polisi Rhannu Pryder i gyflenwyr**
September 2025

Mae S4C yn ymrwymedig i sicrhau bod y safonau uchaf o ymddygiad yn cael eu cynnal ym mhob agwedd o'r hyn mae S4C a'i chyflenwyr yn ei wneud.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r gyfraith, mae S4C yn disgwyl i'w chyflenwyr weithredu'n unol â'r safonau ymddygiad a amlinellir yng Nghôd Safonau Cyflenwyr S4C.

Mae S4C yn cefnogi sefydlu CIISA (The Creative Industries Independent Standards Authority).

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut, ac ym mha amgylchiadau, y mae modd i chi rannu pryderon am ddrwgweithredu ag S4C. Pwrpas y polisi yw i'ch galluogi i wneud hyn mewn modd cyfrinachol a dibynadwy.

**Mae S4C wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gynnal a gwella safonau ymddygiad o fewn y diwydiannau creadigol - ac mae gennym safbwynt dim goddefiant ar fwlio a aflonyddu yn y gweithle.**

**Rydym yn cefnogi gwaith CIISA, sy'n anelu at greu amgylcheddau gwaith mwy diogel, cynhwysol a pharchus ar draws y diwydiannau creadigol.**

**Mae S4C yn mynnu bod ein partneriaid cynhyrchu yn alinio eu polisïau parch yn y gwaith â safonau'r diwydiant a osodwyd gan safonau Annibynnol Awdurdod CIISA y Diwydiannau Creadigol (CIISA). Mae hyn yn cynnwys cael polisïau sy'n mynd i'r afael ag urddas yn y gweithle, hyfforddi pawb ar ymddygiadau priodol - gan sicrhau llwybrau clir ar gyfer codi pryderon am ymddygiad amhriodol.**

## Beth yw Pryder at ddiben y polisi hwn?

Mae 'Pryder' yn y polisi hwn yn golygu unrhyw gred rhesymol bod drwgweithredu wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd lle mae ei ddatgelu i S4C yn fater o fudd cyhoeddus.

Er nad yw'n rhestr gyflawn, gall ddrwgweithredu gynnwys:

- camymddygiad, twyll, efadu treth neu lwgrwobrwyo;
- troseddau neu weithredoedd anghyfreithlon;
- camddefnydd o awdurdod;
- methiant i gydymffurfio â dyletswydd cyfreithiol, cydymffurfiaeth neu reoleiddiol;
- ymddygiad sydd wedi, neu sy'n debygol o beryglu iechyd a diogelwch neu les unigolion gan gynnwys bwlio, aflonyddu ac anffafriaeth;
- ymddygiad sydd wedi niweidio, neu sy'n debygol o niweidio'r amgylchedd;
- cuddio gwybodaeth sy'n ymwneud ag un o'r uchod.

## Beth sydd ddim yn Bryder at ddiben y polisi hwn?

Nid yw'n fwriad gan y polisi hwn i ganiatáu i unigolion:

- hysbysu am ddigwyddiad sy'n peri bygythiad syth i fywyd neu eiddo (dylid hysbysu'r gwasanaethau brys);
- wneud cwyn sy'n ymwneud â materion cyflogaeth personol. Dylech gyfeirio rhain at y cwmni rydych yn gweithio iddo;
- datrys anghydfodau personol neu gyfreithiol;
- gwneud cyhuddiadau rydych yn gwybod sy'n ffug;
- gwneud unrhyw gwynion neu gyflwyno sylwadau am raglenni S4C.

## Pwy all adrodd Pryder i S4C?

Unrhyw brentisiaid, unigolion ar brofiad gwaith, gweithwyr asiantaeth, contractwyr, gweithwyr llawrydd, crewyr cynnwys, cynhyrchwyr, cyfranwyr, ac unrhyw un arall sy'n darparu cynnwys neu wasanaethau i S4C.

## Beth ddylwn i wneud cyn rhannu Pryder ag S4C?

Nid yw'n fwriad gan y polisi hwn eich bod yn rhannu Pryderon ag S4C lle y byddai'n rhesymol ac yn briodol i chi eu rhannu gyda'r cwmni yr ydych yn gweithio iddo yn gyntaf, yn enwedig pan mae'r cwmni yn gweithio'n gadarnhaol i'w datrys.

Gan hynny dylech, pan fo'n rhesymol i wneud hynny, geisio rhannu a/neu ddatrys unrhyw Bryder gyda'ch rheolwr llinell yn y cwmni lle'r ydych yn gweithio. Mae S4C yn deall nad yw hynny bob tro yn bosib neu'n briodol ac felly dylech ystyried unrhyw opsiynau eraill posib sydd ar gael, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- gyngor gan eich adran Adnoddau Dynol – oes unrhyw un o fewn yr adran y byddai'n gallu eich helpu gyda'ch pryder?
- drafod ag aelod arall o'r staff sy'n uwch na'ch rheolwr llinell neu aelod o'r uwch dim rheoli?
- ddefnyddio polisi chwythu'r chwiban y cwmni rydych yn gweithio iddo

Os nad yw unrhyw un o'r opsiynau amgen yn briodol, neu os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio, neu os ydych chi'n teimlo bod eich cwmni wedi delio â'ch cwyn yn annigonol, darperir cyfleuster Rhannu Pryder S4C lwybr ychwanegol i chi geisio datrys eich pryder.

## Egwyddorion Rhannu Pryder

Bydd yr holl bryderon a rennir drwy'r cyfleuster Rhannu Pryder yn cael eu prosesu yn gwbl gyfrinachol. Ond, os ydych yn dymuno, gallwch ddewis peidio rhannu'ch manylion personol drwy rannu'ch pryder yn ddienw.

Bydd S4C yn sicrhau'r canlynol yn gysylltiedig â'r cyfleuster Rhannu Pryder:

**Cyfrinachedd**

- Bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu ac ni fydd y wybodaeth y byddwch yn ei rannu yn eich pryder yn cael ei weld gan unrhyw un heblaw'r unigolion dethol sydd â chyfrifoldeb dros ymchwilio i'ch Pryder.

**Asesiad a chamau gweithredu**

- Bydd eich pryder yn cael ei brosesu a'i ymchwilio cyn gynted ag sy'n bosib. Os daw S4C i'r casgliad bod dim modd i S4C wneud ymchwiliad digonol i'r pryder yna fe fydd yn darparu cyngor ac arweiniad addas ar ba gamau gallwch eu cymryd nesaf.

**Anhysbysrwydd**

- Er y gallwch ddewis i aros yn ddi-enw, rhaid nodi y gall hyn, mewn rhai amgylchiadau, gyfyngu ar allu S4C i ymchwilio i'ch pryderon neu (mewn achosion lle na all S4C gynnal ymchwiliad) roi arweiniad gwahanol;
- Ni fydd unrhyw un sy'n codi pryder yn dioddef anfantais o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi rhannu pryder, cyhyd â bod y mater wedi'i godi'n ddidwyll.

**Dim-dial**

- Bydd camau priodol yn cael eu cymryd yn erbyn unrhyw un sy'n cuddio drwgweithredu yn fwriadol, yn ceisio atal person rhag codi Pryder, neu yn aflonyddu arnynt neu'n eu herlid am godi Pryder. Gall hyn gynnwys diswyddiad syth yn achos staff S4C, terfyniad o'r cytundeb perthnasol gydag S4C, neu'r mater yn cael ei basio ymlaen at yr awdurdodau addas ar gyfer ymchwiliad pellach.

**Sut allaf rannu Pryder?**

Os ydych wedi ceisio mynd drwy'r camau cyntaf a argymhellir, neu os ydy'r camau hynny'n amhriodol neu'n amhosib yn eich achos chi, neu os ydych am drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â phryder am ymddygiad neu am atal aflonyddu rhywiol – gallwch gysylltu unrhyw un o'r isod:

pryder_concern@s4c.cymru

Iestyn.morris@s4c.cymru – Pennaeth Cyfreithiol a Materion Busnes

llion.iwan@s4c.cymru – Prif Swyddog Cynnwys

siwan.phillips@s4c.cymru – Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys

nadine.beaton@s4c.cymru – Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

Dylech nodi wrth gysylltu eich bod yn gwneud hynny o dan y polisi Rhannu Pryder.

Bydd hawl gennych wneud hyn yn ddi-enw os ydych yn dymuno. Ni fyddwch dan anfantais os y byddwch yn dewis aros yn ddi-enw.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl cysylltu â ni?**

Yn gyntaf fe fydd eich ebost yn cael ei hystyried gan Bennaeth Cyfreithiol S4C.

Yna fe all y Pennaeth Cyfreithiol, os yw'n teimlo'i fod yn rhesymol angenrheidiol yn hysbysu'r unigolion canlynol:

- Prif Swyddog Cyllid os yn gonsyrn ariannol;
- Prif Swyddog Gweithredol os yn gonsyrn gweithredol;
- Prif Swyddog Cynnwys; Cyfarwyddwr Pobl & Diwylliant; Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys
- Unrhyw uwch swyddog arall, fel sy'n briodol.

Ar ôl hyn, bydd y Pennaeth Cyfreithiol yn awgrymu'r camau nesaf, a all gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Ymchwiliad mewnol gan S4C;
- Ymchwiliad gan ymchwilwyr allanol a benodir gan S4C;
- Cyfeiriad at y cyflenwr trydydd parti o dan sylw i gynnal gwerthusiad mewnol, gan gynnwys arddangos i S4C:
    - bod ganddynt systemau priodol mewn lle i ymchwilio neu fod ymchwiliad addas wedi ei gynnal; a
    - chanlyniad yr ymchwiliad.
- Cyfeiriad at sefydliadau allanol sy'n arbenigo mewn rhoi canllaw i achwynwyr sy'n codi mathau penodol o gwynion; a neu
- Adrodd y mater i'r heddlu neu awdurdod cyhoeddus addas.

Byddwch yn derbyn ymateb ac adborth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ac nid mwy na 28 diwrnod gwaith ar ôl ystyried eich mater.

Os bydd unrhyw un o S4C sy'n ymdrin â'ch pryder yn credu eu bod wedi ymwneud â'r mater yn barod, neu fod ganddynt unrhyw wrthdaro neu ddiddordeb yn y mater sydd yn cael ei hadrodd, byddant yn ymatal rhag ymwneud â'ch mater. Mewn achosion o'r fath, bydd S4C yn apwyntio unigolyn arall sy'n addas, ac sy'n uwch reolwr.

**Datrys Pryder**

Unwaith bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â pha gam(au) dylid eu cymryd, fe fyddwch yn derbyn adborth ar hyn. Cewch eich hysbysu, cymaint ag sy'n bosib, am y camau sydd wedi'u cymryd. Mae'n bosib na allwn adrodd yn ôl yn llawn ym mhob achos, er enghraifft os yw'r mater wedi ei gyfeirio at yr heddlu.

Bydd canlyniadau ymchwiliadau ac/neu gamau a awgrymir yn cael eu hadrodd nôl yn gyson i Bwyllgor Archwilio a Risg S4C, ar sail gyfrinachol.

Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i roi ymateb ac i ddelio â'ch cwestiwn neu bryder yn brydlon, yn enwedig pan fydd amgylchiadau yn golygu bod amser yn allweddol.

Yn achos materion sy'n ymwneud â gweithredoedd sy'n digwydd yn llwyr o fewn cyflenwr trydydd parti, lle nad oes gan S4C fynediad at ddogfennau a chofnodion, mae'n bosib na fydd

S4C yn medru cynnal ymchwiliad digonol ei hun.  Os felly, bydd S4C yn awgrymu camau amgen i'w cymryd i geisio datrys y broblem ac i ddelio â'ch Pryder yn briodol.

## Llinellau cymorth eraill sydd ar gael

Mae'r elusen ***The Film & TV Charity*** yn arbenigo mewn darparu cefnogaeth i bawb sy'n gweithio tu ôl y llenni yn y maes ffilm a theledu, gan ddelio ag amrediad eang o broblemau, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu, cyngor cyfreithiol a dyled.  Rhif ei llinell gymorth yw 0800 054 0000.  Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau maent yn eu darparu, ewch i'w gwefan.

Mae ***Protect*** (gynt *Public Concern at Work*) yn darparu cyngor cyfrinachol i weithwyr sy'n ansicr os dylent neu sut i wneud cwyn budd cyhoeddus.  Ar gyfer cyngor chwythu'r chwiban (*whistleblowing*), ffoniwch 020 3117 2520.  Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau maent yn eu darparu, ewch i'w gwefan.

Mae ***Acas*** *(Advisory, Conciliation and Arbitration Service)* yn sefydliad annibynnol a diduedd sy'n darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, cymodi a gwasanaethau eraill i gyflogwyr, chyflogeion a gweithwyr i helpu atal neu ddatrys problemau yn y gweithle.  Gellir cysylltu ag Acas am ddim ar ei llinell gymorth gyfrinachol: 0300 123 1100.  Gellir dod o hyd i gyngor ar fwlio ac aflonyddu ar ei gwefan.

## Adnoddau eraill sydd ar gael

Mae'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn gorff statudol annibynnol gyda chyfrifoldeb dros annog cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, ac amddiffyn ac annog hawliau dynol pawb ym Mhrydain.  Gallwch ddod o hyd i ganllaw ar wahaniaethu a hawliau dynol ar ei gwefan .

Diweddarwyd Medi 2025